# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2024

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | J.K. Howell | A.C. Jones |
| M.J.A. Lewis | A. Leyshon | B.D.J. Phillips | E. Skinner |
| R. Sparks | G.B. Thomas | D.E. Williams | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | |
|---|---|---|
| T. Davies | M. Donoghue | M. Thomas |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 1.00 - 2.26 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P Cooper.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/06297** | **Dileu Amod 5 sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio cyfeirnod W/38893, i ganiatáu cadw'r strwythur pren presennol ar y safle a chadw carafán deithiol at ddibenion domestig ategol ym Mharc yr Odyn, Hebron, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0XT**<br><br>Cyfeiriodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 7 Rhagfyr 2023), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil pryderon a godwyd y gallai'r cais fod yn groes i'r egwyddorion a |

| | |
|---|---|
| | nodwyd yn y canllawiau Datblygiad Un Blaned (OPD) o ran ei effaith amgylcheddol ac ecolegol.<br><br>Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r cynnig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.<br><br>Nodwyd y byddai caniatâd yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i sicrhau bod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion y Polisi Datblygu Un Blaned a dogfennau Canllawiau Ymarfer.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig. |
| **PL/06617** | **Cais ôl-weithredol ar gyfer yr estyniad arfaethedig y tu cefn i Lain 3 ac estyniad i'r decin wedi'i godi yn y cefn a gymeradwywyd o dan y gymeradwyaeth am faterion a gadwyd yn ôl (cyf. PL/00588) yn Llain 3, Hen Labordai CNC, Pen y Fai, Llanelli, SA15 4EN**<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ôl-weithredol ac a ailadroddodd y pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio ac roedd y prif bryderon yn ymwneud â'r canlynol:-<br><br>• Nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio â gofynion y caniatâd cynllunio blaenorol o ran ei faint, y math o falconi a'r balwstrad gwydr a'r effaith ganlyniadol ar yr eiddo cyfagos.<br>• Mae'r estyniad i'r gegin a adeiladwyd 30% yn fwy na'r cynllun gwreiddiol.<br>• Problemau o ran mynediad.<br>• Eiddo cyfagos yn colli preifatrwydd.<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |

**CHAIR** **DATE**